**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 12-00(p4)**

**Dyddiad:** 14 Medi 2000
**Amser:** 2.00pm hyd 4.20pm
**Lleoliad:** Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

**Adolygiad o Bolisi Arallgyfeirio Economaidd yng Nghefn Gwlad *(Hydref - Rhagfyr)***
**Manyleb y materion: Terry Marsden**

## 1. Diben

1.1 Amlinellu amserlen arfaethedig adolygiad y Pwyllgor o arallgyfeirio economaidd yng nghefn gwlad ar gyfer y pum cyfarfod sydd i'w cynnal rhwng mis Hydref a diwedd mis Rhagfyr.

## 2. Cefndir

2.1 Mae'r adolygiad o bolisi, wedi ymgynghoriad eang, wedi enwi chwe maes allweddol i'w harchwilio (gweler ARD 07-00(p2)). Cwblhawyd un o'r meysydd hyn (Cynllunio) bron yn gyfangwbl, sy'n gadael pump ar ôl i fod yn destun ystyriaeth fanwl a chasglu tystiolaeth bellach. Y rhain yw:

- gwasanaethau cymorth a chynghori
- cael gafael ar gyfalaf
- addysg a hyfforddiant
- marchnata a chynyddu gwerth ychwanegol
- datblygu cymunedol

2.2 Ni fydd yn bosibl mynd i'r afael â'r rhain yn gyfangwbl yn y pum cyfarfod sydd rhwng mis Hydref a'r Nadolig. Cynigia'r amserlen ddrafft yn y papur hwn ystyriaeth o'r tair thema gyntaf erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd angen gwaith ychwanegol ar farchnata/ ychwanegu gwerth a datblygu cymunedol yn y Flwyddyn Newydd, cyn cwblhau'r arolwg.

## 3. Canolbwyntio gwaith y Pwyllgor

3.1 Mae'n werth ailadrodd amcanion cyffredinol yr arolwg hwn:

*Adolygu'r polisïau a'r rhaglenni a fyddai'n cefnogi mwy o amrywiaeth economaidd yn ardaloedd gwledig Cymru, ac i ystyried cynigion i greu:*

- *cynrychiolaeth ehangach o weithgareddau economaidd*
- *mwy o ddewis o gyfleoedd economaidd, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc; a*

- *ffermydd teuluol mwy cynaliadwy.*

3.2 Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i'r Pwyllgor, mae'n bwysig canolbwyntio gwaith ar yr amcanion hyn. Hynny yw, mae angen i ni ystyried sut y gall gwelliannau ym mhob un o'r meysydd a enwir ym mharagraff 2.1 gyfrannu at gyflawni'r tri phrif amcan cyffredinol hyn. Felly, dylai'r cwestiynau allweddol canlynol fod ym mlaen meddwl y Pwyllgor wrth holi a gwneud ceisiadau am dystiolaeth:

i. Sut y gall y mentrau arloesol presennol gael eu meithrin yn well a'u dadansoddi'n fwy trylwyr?
ii. Pa fath o bolisïau a fyddai'n cyfrannu'n fwyaf effeithiol at hyn?
iii. Sut y gellir sefydlu amgylchedd o fentrau newydd creadigol (drwy gyfuniad o ffyrdd preifat a chyhoeddus a thrwy ffyrdd a seiliwyd yn y gymuned)?
iv. Pa dargedau neu feincnodau effeithiol y gellid eu gosod i fonitro perfformiad polisi mewn datblygu economaidd gwledig?

3.3 Dylai'r gwaith gyfrannu at ddatblygu strategaeth datblygu economaidd gwledig ymarferol ar gyfer Cymru, sy'n rhoi pwyslais ar gynyddu gallu ardaloedd gwledig a'u pobl i gystadlu a chyfrannu at yr economi ehangach.

3.4 Felly, dylai cynnyrch y pum cyfarfod nesaf fod yn sail ar gyfer ateb y pedwar cwestiwn uchod, gan roi darlun clir o'r meysydd blaenoriaeth sydd ar ôl, a rhoi hyn oll ar waith i geisio cyflawni amcanion cyffredinol yr adolygiad.

**4. Amserlen arfaethedig**

4.1 Y prif feysydd ar gyfer trafodaeth yn y tri chyfarfod cyntaf fydd **cael gafael ar gyfalaf** a gwasanaethau **cymorth a chyngor**. Gwahoddir tystiolaeth oddi wrth y rheini sydd â phrofiad ymarferol o sefydlu neu gynorthwyo busnesau mewn ardaloedd gwledig (Hydref 8fed), asiantaethau menter presennol (Hydref 25ain) a'r cyrff cyhoeddus mwy o faint (Tachwedd 8fed).

4.2 Bydd y gwaith a wnaethpwyd yn barod gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ei arolwg o gymorth busnes, a'r cynnydd a wnaethpwyd wrth sefydlu'r gronfa ddatblygu - *Cyllid Cymru* - yn arbennig o berthnasol i'r cam hwn yn adolygiad y Pwyllgor.

**Hydref 18fed**

Rhwydwaith LEADER
Menter PRYA - menter magu busnesau
Mentrwyr unigol
Ffederasiwn Busnesau Bach
Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain

4.3 Bydd y pwyslais yn y sesiwn hon ar gasglu tystiolaeth am rwystrau a chyfleoedd i gael gafael ar gyfalaf, yn ogystal â chyngor a chymorth busnes, oddi wrth rai o’r ffigurau pwysicaf yn y sector preifat, a’r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli. Y flaenoriaeth fydd asesu sut y gellid cynorthwyo, annog a chreu busnesau gwledig yn fwy effeithiol.

**Hydref 25ain**

Asiantaethau menter lleol
Cynghorau Hyfforddi ac Mentro
Menter a Busnes
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - swyddogion datblygu busnes llywodraeth leol

4.4 Bydd y sesiwn hon yn archwilio’r un themâu â’r sesiwn flaenorol, ond y tro hwn yngln ag asiantaethau menter cyfredol a leolir yn lleol a rhanbarthol. Bydd hefyd yn archwilio’r arfer gorau cyfredol, eu problemau a sut y gellid eu gwella.

**Tachwedd 8fed**

Awdurdod Datblygu Cymru
Cyswllt Busnes
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Cyllid Cymru

4.5 Bydd y sesiwn hon yn targedu’r cyrff cenedlaethol ehangach. Bydd hefyd yn edrych yn benodol ar y ffyrdd y gall yr asiantaethau hyn wella’r cymorth sydd ar gael ar gyfer busnesau gwledig, a hynny yng nghyd-destun yr adolygiadau mwy eang sy’n cael eu cynnal ar hyn o bryd ym maes cymorth busnes. Bydd hyn yn cynnwys agweddau ar y ddarpariaeth a’r galw am gyfalaf, cymorth a chyngor.

**Tachwedd 22ain a Rhagfyr 6ed**

4.6 Ar Dachwedd 22ain, efallai y byddai o fudd i’r Pwyllgor adolygu ei gynnydd hyd hynny - er mwyn dod o hyd i fylchau ac i drafod unrhyw argymhellion sy'n datblygu.

4.7 Pan fydd y Pwyllgor yn fodlon ar ei waith ar y ddwy thema gyntaf, gall droi ei olygon at y ddarpariaeth a’r galw am addysg a hyfforddiant. Rhagwelir y bydd un sesiwn yn cynnwys cyfraniad gan bob un o’r prif ddarparwyr gwladol, tra bydd y llall yn canolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr (gan gynnwys y sefydliadau sy’n cynrychioli ffermwyr). Byddai’r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys rhai esiamplau o arfer da ac arloesi mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yng nghefn gwlad.

4.8 Yn y sesiynau hyn i gyd, bydd rhaid darparu rhestr fras o gwestiynau allweddol i’r rhai fydd yn ymateb, fel y gallant baratoi eu tystiolaeth o flaen llaw i fynd i’r afael â’r cwestiynau hyn. Ceir drafft o

rai o’r meysydd allweddol hyn yn Atodiad A.

**5. Gweithredu gan y Pwyllgor**

5.1 Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar yr amserlen am y pum cyfarfod sydd hyd ddiwedd y flwyddyn, a chytuno arni.

**Terry Marsden, Ymgynghorydd Arbenigol & Ysgrifenyddiaeth** **Medi 2000**

---

**Atodiad A**

**Cael gafael ar gyfalaf**

Sut orau y gellir defnyddio cyllid preifat a chyhoeddus i sbarduno a chynorthwyo datblygu busnes mewn ardaloedd gwledig?

Y sector preifat an-amaethyddol: beth yw anghenion unigryw busnesau sydd wedi’u lleoli yng nghefn gwlad?

Yn ychwanegol at hyn, a oes gwahaniaeth rhwng mentrau bach a chanolig cynhenid, a’r rheini sydd wedi dod o’r tu allan?

Sut y gellid sbarduno datblygiad clystyrrau o fusnesau?

Pa fath o ddarpariaethau ariannol sydd eu hangen er mwyn y rhain (busnesau newydd a bach)?

Sut y mae’r strwythur grantiau busnes presennol wedi cynorthwyo datblygiad busnes, neu beidio?

Sut y mae busnesau’n gwneud y gorau o’r technolegau gwybodaeth presennol, a sut y gallant wneud hynny?

Pa lefel o gydweithio/gydweithredu a geir rhwng cwmnïau? Pa mor berthnasol yw hyn i ddatblygu busnes?

Sut orau y gellid rhoi agweddau o gyllid strwythuro a chyllid datblygu gwledig yr UE ar waith i fynd i’r afael â phroblemau datblygu busnes?

Pa dystiolaeth sydd ar gael o gymorth ariannol ar gyfer datblygu cynnyrch newydd? Oes angen gwella hyn?

Oes darpariaeth ariannol ar gael ar gyfer ymchwil farchnata effeithiol i fusnesau bach?

Sut y gellid datblygu a thargedu cymorth ariannol ar gyfer ymchwil a datblygu mwy effeithiol?

Pa mor bwysig yw cyfraniad y sector preifat mewn cychwyn a datblygu prosiectau adfywio cymunedau?

Sut y gallai strwythurau grant sydd ar gael ar hyn o bryd gael eu targedu'n well, a'u gwneud yn fwy addysgiadol?

Pa sectorau sy'n allweddol ar gyfer buddsoddi a datblygu?

A allai polisïau sy'n gysylltiedig â'r farchnad dir godi cyfalaf ar gyfer cynlluniau arallgyfeirio gwledig?

Pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer prosiectau datblygu tir sy'n cyfrannu at arallgyfeirio gwledig (er enghraifft yr Ardd Fotaneg Genedlaethol)?

Pa fathau penodol o gymorth ariannol fyddai orau i helpu busnesau a leolir ar ffermydd i arallgyfeirio?

**Gwasanaethau cymorth a chyngor**

Beth yw'r problemau ar hyn o bryd o ran darparu cyngor a chymorth?

Sut y mae'r rhain yn berthnasol, yn benodol, i 'fusnesau ifanc' a'r rheini sy'n dymuno arallgyfeirio?

Beth sydd ei angen, a phwy ddylai ei ddarparu?

Ydi 'siopau un stop' yn syniad da? Ydyn nhw'n ymarferol?

Faint o gyfraniad ddylai fod gan y gymuned leol wledig mewn cynorthwyo busnesau?

Sut y gellid defnyddio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â'r problemau hyn? Pa fath o strategaeth y dylwn ddatblygu yng nghyswllt y cymorth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu?

Sut y gellid dod o hyd i 'olynwyr ifanc' i fusnesau, eu hyfforddi a'u hannog?

Pa fath o gymhelliant a chymorth sydd ei angen ar y rheini o'r tu allan sy'n dymuno sefydlu busnesau newydd yng nghefn gwlad?

Adroddir yn aml bod ffermwyr yn methu arallgyfeirio oherwydd eu bod wedi eu 'cloi' i'r mathau

presennol o gymorth sydd wedi'i seilio ar amaethyddiaeth. Sut y gallai'r rheoliadau datblygu gwledig newydd gynorthwyo i rhyddhau'r potensial hwn dros y pum mlynedd nesaf?

Beth yw rôl bosibl yr asiantaethau hyfforddi a'r asiantaethau datblygu yng nghyswllt hyn?

**Addysg a hyfforddiant**

Beth yw'r problemau ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth hyfforddiant ac arweiniad ym meysydd cynllunio busnes, marchnata a rheoli ac ati?

Faint o ddarpariaeth sydd ar gael i'r sectorau economaidd gwledig (yn y sectorau pellach ac uwch ill dau)?

Beth all darparwyr addysg a hyfforddiant ei wneud er mwyn datblygu diwylliant mentro ac arloesi cryfach yng nghefn gwlad Cymru?

Beth yw'r cysylltiadau rhwng cyflogwyr gwledig ac asiantaethau hyfforddi? Oes angen gwelliant yma?

Oes angen gwell systemau gwybodaeth sy'n gysylltiedig â sgiliau gwledig?

Beth yw'r prif broblemau gyda'r cyflenwad llafur gwledig? Sut y gellid eu lleddfu?

Pa gysylltiadau sy'n bodoli rhwng cymunedau gwledig, cyflogwyr ac AALlau? Sut y gellir eu gwella?

Pa fathau o ganolfannau rhagoriaeth sydd eu hangen? Pa swyddogaethau fyddai iddynt?

Oes angen systemau bwrseriaethau mwy eang?

Pa fathau newydd o anghenion hyfforddiant sydd eu hangen (er enghraifft yn y sectorau newydd, Technoleg Gwybodaeth, y busnes organig ac ati)?

Sut y mae anghenion hyfforddi a llafur mewnfuddsoddwyr yn wahanol i anghenion busnesau cynhenid?

Pa gydbwysedd a geir rhwng hyfforddiant rhan-amser a llawn-amser?

Sut y gellid datblygu gwell cyswllt rhwng y mentrau hyfforddi a leolir yn y gymuned a'r rheini a ddarperir gan yr asiantaethau ffurfiol?

Pa fath o hyfforddiant sydd ei angen i gynyddu potensial gwasanaethau a chynnyrch 'gwerth ychwanegol' a leolir ar ffermydd?

Sut y gellid defnyddio’r trefi marchnad fel canolfannau hyfforddi?

Oes yna sectorau penodol (er enghraifft twristiaeth wledig, ynni ac ati) sy’n dioddef problemau arbennig gyda’r cyflenwad llafur?

A all y rhwydwaith colegau amaethyddol weithredu fel canolbwynt ar gyfer yr anghenion hyfforddiant gwledig a arallgyfeiriwyd? Ydy’r rhwydwaith yn cyflawni hyn?

Beth yw’r anghenion addysg a hyfforddiant penodol sy’n gysylltiedig â’r marchnadoedd newydd ‘gwerth-ychwanegol’ sy’n datblygu?

Sut y gellid annog yr ifanc i weithio a datblygu gyrfaoedd mewn lleoliadau gwledig? Pa dystiolaeth sydd ar gael bod hyn yn digwydd?

I ba raddau y mae gan AALlau bolisïau a chyfarwyddyd economaidd gwledig?

Pa newidiadau gweddol sydyn y gellid eu gwneud i bolisïau addysg presennol er mwyn cynyddu a sbarduno arallgyfeirio gwledig?